**EITEM AR YR AGENDA: 6**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17eg Mawrth 2008**

**ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

**Adroddiad gan y Cynghorydd Trevor Roberts, Cadeirydd yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd y Cadeirydd ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ac Achub.

## Cefndir

**2.** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd y Cadeirydd, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub, ac yn ei absenoldeb, yr Is-Gadeirydd, ers 17eg Rhagfyr 2007.

## Gwybodaeth

**3.** Rhestrir isod y digwyddiadau a'r cyfarfodydd a fynychwyd gan y Cadeirydd/Is Gadeirydd o'r 17eg Rhagfyr 2007 hyd heddiw:

**Gwybodaeth** *(parhad)*

4.

| Dyddiad | Cyfarfod/Digwyddiad fynychwyd |
|---|---|
| 7$^{fed}$ Ionawr 2008 | Cafodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gyfarfod gyda'r Prif Swyddog Tân a swyddogion eraill ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. |
| 8$^{fed}$ Ionawr 2008 | Cadeiriodd y Cadeirydd gyfarfod o Weithgor Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod yn y Pencadlys yn Llanelwy. |
| 15$^{fed}$ Ionawr 2008 | Teithiodd yr Is-Gadeirydd i Bencadlys y Gwasanaeth i fynychu cyfarfod o Fwrdd Prosiect Adleoli Gorsaf Dân Wrecsam. |
| 16$^{eg}$ Ionawr 2008 | Mynychodd y Cadeirydd ac aelodau eraill o Weithgor yr Hyrwyddwyr gyfarfod y Grŵp ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub. Yn dilyn y cyfarfod, fe gymrodd yr Hyrwyddwyr ran mewn sesiwn hyfforddi ar Adolygiadau Datblygu Unigol. |
| 17$^{eg}$ Ionawr 2008 | Aeth y Cadeirydd i seminar oedd wedi cael ei threfnu gan y Cyd Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Llywodraethau Lleol (NJC) yn Llundain. Thema'r seminar oedd 'Working Together: Better Industrial Relations for a Better Fire Service'. |

**Gwybodaeth** *(parhad)*

| | |
|---|---|
| 22$^{ain}$ Ionawr 2008 | Yn rhinwedd eu swydd fel ymddiriedolwyr, mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Atal Tân Cymru yng Nghasnewydd. |
| 24$^{ain}$ Ionawr 2008 | Aeth y Cadeirydd, ynghyd â Rheolwr Cefnogi Gweithrediadau'r Gwasanaeth, i gynhadledd wedi ei threfnu gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân. Thema'r gynhadledd, gynhaliwyd yng Nghaerlŷr, oedd 'Innovations – Flexible Working in the Fire and Rescue Service'. |
| 25$^{ain}$ Ionawr 2008 | Roedd y Prif Swyddog Tân a'r Cadeirydd yn bresennol mewn gwasanaeth coffa gynhaliwyd yng Nghadeirlan Coventry i goffau'r pedwar diffoddwr tân o Wasanaeth Tân ac Achub Swydd Warwick gollodd eu bywydau yn Atherstone-on-Stour mis Tachwedd diwethaf. |
| 29$^{ain}$ Ionawr 2008 | Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod wedi ei drefnu gan wirfoddolwyr Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc (YFA) yn Llanfairfechan. |
| 30$^{ain}$ Ionawr 2008 | Teithiodd y Cadeirydd i Lundain i fynychu cyfarfod o'r NJC. |
| 5$^{ed}$ Chwefror 2008 | Cadeiriodd y Cadeirydd gyfarfodydd Gweithgor Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod a'r Panel Gweithredol yn Llanelwy. |
| 6$^{ed}$ Chwefror 2008 | Roedd y Cadeirydd yn bresennol mewn sesiwn friffio gynhaliwyd yn dilyn tân angheuol yng Ngwynedd. |

## **Gwybodaeth** *(parhad)*

| | |
|---|---|
| 8fed Chwefror 2008 | Teithiodd y Cadeirydd i'r Waun i fynychu Seremoni o Gyrhaeddiad Prosiect y Ffenics. |
| 12fed Chwefror 2008 | Mynychodd y Is-Gadeirydd gyfarfod o Grŵp Partneriaeth Strategol y Gwasanaethau Brys ym Mae Colwyn. |
| 13eg Chwefror 2008 | Tystiodd y Cadeirydd agor tendrau yn Llanelwy cyn teithio i Lanfairfechan i fynychu cyfarfod o wirfoddolwyr Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc. |
| 14eg Chwefror 2008 | Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod o Banel Gwasanaethau Tân Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yng Nghaerdydd. |
| 19eg Chwefror 2008 | Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod o Grŵp Cyswllt Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mae Caerdydd. Roedd Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn bresennol yn y cyfarfod. |
| 19eg ac 20fed Chwefror 2008 | Mynychodd yr Is-Gadeirydd raglen Academi Arweinyddiaeth yr Asiantaeth Gwella a Datblygu: ar 'Political Leadership in Fire and Rescue Authorities' yn Warwick. |
| 20fed Chwefror 2008 | Roedd y Cadeirydd yn dyst i agor tendrau ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. |

**Gwybodaeth** *(parhad)*

| | |
|---|---|
| 21ain Chwefror 2008 | Mynychodd y Cadeirydd Gyfarfod Arbennig o Fforwm Tân y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Roedd Gweinidog Tân Llywodraeth y DU, Parmjit Dhanda AS yn annerch y fforwm. |
| 27ain Chwefror 2008 | Cadeiriodd y Cadeirydd Gynhadledd Diogelwch Tân Atal Tân Cymru yn Llandudno. |
| 29ain Chwefror 2008 | Roedd y Cadeirydd ac aelodau eraill yn bresennol yn Nawns Gwobrwyo'r Gymuned y Gwasanaeth a gynhaliwyd yn Llandudno. |
| 3ydd Mawrth 2008 | Cadeiriodd y Cadeirydd gyfarfod o Weithgor y Cynllun Lleihau Risg ym Mhencadlys y Gwasanaeth yn Llanelwy. Yn dilyn y cyfarfod yma, mynychodd nifer o gyfarfodydd eraill gyda swyddogion o'r Awdurdod ac arwyddodd gytundebau. |
| 6ed Mawrth 2008 | Cadeiriodd y Cadeirydd gyfarfod o Banel Gweithredol yr Awdurdod a gynhaliwyd yn Llanelwy. |
| 7fed Mawrth 2008 | Mynychodd yr Is-Gadeirydd ac aelodau eraill o'r Awdurdod Tân ac Achub sioe deithiol diogelwch ar y ffordd a drefnwyd ar y cyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru ac Adran Addysg Cyngor Sir Ddinbych yng Ngholeg Llysfasi, Rhuthun. |
| 8fed Mawrth 2008 | Aeth y Cadeirydd, ynghyd â gwirfoddolwyr y YFA i ymweld â safle Kingswood Canolfan Colomendy, Maeshafn, y safle arfaethedig ar gyfer Cystadleuaeth y Canghennau YFA. |

**Gwybodaeth** *(parhad)*

| | |
|---|---|
| 10$^{fed}$ Mawrth 2008 | Mynychodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd y cyn-gyfarfod arferol gyda swyddogion i drafod yr adroddiadau ar agenda cyfarfod heddiw. Yn dilyn y cyfarfod yma, aethant i gyfarfod arall, gyda chyrff cynrychioladol y staff, i'r diben o drafod yr eitemau ar agenda fusnes heddiw. |
| 11$^{eg}$ a 12$^{fed}$ Mawrth 2008 | Mynychodd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân, Gynhadledd Dân Flynyddol y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Coventry. |
| 13$^{eg}$ Mawrth 2008 | Teithiodd y Cadeirydd i Lundain i fynychu cyfarfod o'r NJC. |
| 15$^{fed}$ Mawrth 2008 | Roedd y Cadeirydd a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân yn bresennol yn lansiad Apêl £1 Ambiwlans Awyr Cymru yn Neuadd y Dref, Wrecsam. |

**Argymhelliad**

**5.** Fod aelodau'n nodi'r wybodaeth ddarparwyd.